OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 190 (Cy. 41)

2025 No. 190 (W. 41)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

The Education (Student Finance) (Fee Limit and Loan Amounts) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"),

(b) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"), ac

(c) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018").

Mae Rheoliadau 2015 yn rhagnodi'r uchafswm y gall sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a chanddynt gynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd mewn grym ("sefydliadau rheoleiddiedig") ei godi drwy ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau israddedig llawnamser. Mae Rheoliadau 2015 hefyd yn rhagnodi uchafsymiau is mewn cysylltiad â chyrsiau penodol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2015 i gynyddu pob uchafswm rhagnodedig o'r flwyddyn academaidd 2025/26 ymlaen.

Mae Rheoliadau 2017 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018. Mae Rheoliadau 2018 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend—

(a) the Higher Education (Amounts) (Wales) Regulations 2015 ("the 2015 Regulations"),

(b) the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2017 ("the 2017 Regulations"), and

(c) the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018 ("the 2018 Regulations").

The 2015 Regulations prescribe the maximum amount that higher education institutions in Wales with an approved fee and access plan in force ("regulated institutions") can charge by way of tuition fees for full-time undergraduate courses. The 2015 Regulations also prescribe lower maximum amounts in respect of certain courses.

Regulation 2 amends the 2015 Regulations to increase each prescribed maximum amount from the 2025/26 academic year.

The 2017 Regulations provide for financial support for eligible students taking designated higher education courses which begin before 1 August 2018. The 2018 Regulations provide for financial support for eligible students taking designated higher education courses which begin on or after 1 August 2018.

Mae rheoliadau 3 a 4 yn diwygio Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 yn y drefn honno i gynyddu uchafswm y cymorth at ffioedd dysgu sydd ar gael o'r flwyddyn academaidd 2025/26 ymlaen i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau mewn—

(a) sefydliadau rheoleiddiedig, i gyd-fynd â'r cynnydd yn yr uchafsymiau rhagnodedig o dan Reoliadau 2015 o ganlyniad i'r diwygiadau a wneir gan reoliad 2,

(b) sefydliadau addysg uwch a darparwyr addysg uwch eraill a reoleiddir mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, i gyd-fynd â'r cynnydd yn y symiau y gall sefydliadau a darparwyr o'r fath eu codi drwy ffioedd dysgu, ac

(c) sefydliadau preifat yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Ariannu a Strategaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Regulations 3 and 4 amend the 2017 Regulations and the 2018 Regulations respectively to increase the maximum amount of tuition fee support available from the 2025/26 academic year to students undertaking courses at—

(a) regulated institutions, to correspond with the increase in the prescribed maximum amounts under the 2015 Regulations as a result of the amendments made by regulation 2,

(b) higher education institutions and other providers of higher education regulated elsewhere in the United Kingdom, to correspond with increases in the amounts that such institutions and providers can charge by way of tuition fees, and

(c) private institutions in Wales and elsewhere in the United Kingdom.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Strategy and Funding Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2025 Rhif 190 (Cy. 41)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

Gwnaed	*19 Chwefror 2025*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*21 Chwefror 2025*
Yn dod i rym	*17 Mawrth 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(1)(a) a (2)(b), a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), a phwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(3) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**3**).

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146(2)(a). *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1) a (2)(b) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 2015 dccc 1. *Gweler* adran 57(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" ac "a ragnodir" a "rheoliadau".

2025 No. 190 (W. 41)

EDUCATION, WALES

The Education (Student Finance) (Fee Limit and Loan Amounts) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2025

Made	*19 February 2025*
Laid before Senedd Cymru	*21 February 2025*
Coming into force	*17 March 2025*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 22(1)(a) and (2)(b), and 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998(**1**), and now exercisable by them(**2**), and powers conferred on them under sections 5(3) and 55(2) of the Higher Education (Wales) Act 2015(**3**).

(**1**) 1998 c. 30; section 22(1) was amended by the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), section 146(2)(a). *See* section 43(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998 for the definitions of "prescribed" and "regulations".

(**2**) The functions of the Secretary of State in section 22(1) and (2)(b) of the Teaching and Higher Education Act 1998 were transferred to the National Assembly for Wales, so far as they relate to making provision in relation to Wales, by section 44 of the Higher Education Act 2004 (c. 8). The Secretary of State's function in section 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998, in so far as being exercisable in relation to Wales, was transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, article 2 and Schedule 1 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**3**) 2015 anaw 1. *See* section 57(1) for the definitions of "prescribed" and "regulations".

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 17 Mawrth 2025.

(3) Mae rheoliad 3 yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio.

Diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015

2.—(1) Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, yn Nhabl 1—

(a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024" mewnosoder "ond cyn 1 Awst 2025";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

"Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025	£9,535"

(3) Yn rheoliad 4(2), yn Nhabl 2—

(a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024" mewnosoder "ond cyn 1 Awst 2025";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

"Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025	£4,765"

(4) Yn rheoliad 5(2), yn Nhabl 3—

(a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024" mewnosoder "ond cyn 1 Awst 2025";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

"Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025	£1,905"

(5) Yn rheoliad 6(2), yn Nhabl 4—

(a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024" mewnosoder "ond cyn 1 Awst 2025";

(**1**) O.S. 2015/1496 (Cy. 168), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/144 (Cy. 31).

Title, coming into force and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Student Finance) (Fee Limit and Loan Amounts) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 17 March 2025.

(3) Regulation 3 applies in relation to the provision of support to a student in relation to an academic year which begins on or after 1 August 2025, whether or not anything done under these Regulations is done before, on or after that date.

Amendments to the Higher Education (Amounts) (Wales) Regulations 2015

2.—(1) The Higher Education (Amounts) (Wales) Regulations 2015(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 3, in Table 1—

(a) in Column 1, after "Beginning on or after 1 August 2024" insert "but before 1 August 2025";

(b) at the end of the Table, insert the following table entry—

"Beginning on or after 1 August 2025	£9,535"

(3) In regulation 4(2), in Table 2—

(a) in Column 1, after "Beginning on or after 1 August 2024" insert "but before 1 August 2025";

(b) at the end of the Table, insert the following table entry—

"Beginning on or after 1 August 2025	£4,765"

(4) In regulation 5(2), in Table 3—

(a) in Column 1, after "Beginning on or after 1 August 2024" insert "but before 1 August 2025";

(b) at the end of the Table, insert the following table entry—

"Beginning on or after 1 August 2025	£1,905"

(5) In regulation 6(2), in Table 4—

(a) in Column 1, after "Beginning on or after 1 August 2024" insert "but before 1 August 2025";

(**1**) S.I. 2015/1496 (W. 168), amended by S.I. 2024/144 (W. 31).

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

"Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025	£1,430"

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

3.—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 20 (benthyciad ychwanegol at ffioedd mewn perthynas â chyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012)—

(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£250" rhodder "£535";

(b) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£125" rhodder "£265";

(c) ym mharagraff (5)(a), yn lle "£50" rhodder "£105";

(d) ym mharagraff (6)(a), yn lle "£35" rhodder "£80".

(3) Yn rheoliad 21 (benthyciad newydd at ffioedd sefydliad preifat)—

(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£6,165" rhodder "£6,355";

(b) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£3,080" rhodder "£3,175";

(c) ym mharagraff (5)(a), yn lle "£1,230" rhodder "£1,270";

(d) ym mharagraff (6)(a), yn lle "£920" rhodder "£950".

(4) Yn rheoliad 22 (benthyciad at ffioedd mynediad graddedig carlam)—

(a) ym mharagraff (3), yn lle "£5,535" rhodder "£5,785";

(b) ym mharagraff (5)(a), yn lle "£250" rhodder "£285".

(5) Yn rheoliad 86 (benthyciad newydd at ffioedd rhan-amser)—

(a) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£6,935" rhodder "£7,145";

(b) ym mharagraff (5)(a), yn lle "£4,625" rhodder "£4,765".

(**1**) O.S. 2017/47 (Cy. 21), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(b) at the end of the Table, insert the following table entry—

"Beginning on or after 1 August 2025	£1,430"

Amendments to the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2017

3.—(1) The Education (Student Support) (Wales) Regulations 2017(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 20 (additional fee loan in respect of courses beginning on or after 1 September 2012)—

(a) in paragraph (3)(a), for "£250" substitute "£535";

(b) in paragraph (4)(a), for "£125" substitute "£265";

(c) in paragraph (5)(a), for "£50" substitute "£105";

(d) in paragraph (6)(a), for "£35" substitute "£80".

(3) In regulation 21 (new private institution fee loan)—

(a) in paragraph (3)(a), for "£6,165" substitute "£6,355";

(b) in paragraph (4)(a), for "£3,080" substitute "£3,175";

(c) in paragraph (5)(a), for "£1,230" substitute "£1,270";

(d) in paragraph (6)(a), for "£920" substitute "£950".

(4) In regulation 22 (accelerated graduate entry fee loan)—

(a) in paragraph (3), for "£5,535" substitute "£5,785";

(b) in paragraph (5)(a), for "£250" substitute "£285".

(5) In regulation 86 (new part-time fee loan)—

(a) in paragraph (4)(a), for "£6,935" substitute "£7,145";

(b) in paragraph (5)(a), for "£4,625" substitute "£4,765".

(**1**) S.I. 2017/47 (W. 21), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

4. Yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**1**), yn rheoliad 40 (swm benthyciad at ffioedd dysgu), ym mharagraff (3), yn Nhabl 2—

(a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2024" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2025";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnodion a ganlyn yn y tabl—

Amendments to the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018

4. In the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018(**1**), in regulation 40 (amount of tuition fee loan), in paragraph (3), in Table 2—

(a) in Column 1, after "Beginning on or after 1 September 2024" insert "but before 1 September 2025";

(b) at the end of the Table, insert the following table entries—

(**1**) O.S. 2018/191 (Cy. 42); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2020/153 (Cy. 27) ac O.S. 2024/144 (Cy. 31).

(**1**) S.I. 2018/191 (W. 42); relevant amendments are S.I. 2018/814 (W. 165), S.I. 2019/235 (W. 54), S.I. 2020/153 (W. 27) and S.I. 2024/144 (W. 31).

"Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025	1	Darparwr arferol	Cymru	£9,535: cwrs llawnamser £2,625: cwrs rhan-amser
			Mannau eraill yn y DU	£9,535: cwrs llawnamser £7,145: cwrs rhan-amser
		Sefydliad preifat	Cymru	£6,355: cwrs llawnamser £2,625: cwrs rhan-amser
			Mannau eraill yn y DU	£6,355: cwrs llawnamser £4,765: cwrs rhan-amser
	2	Darparwr arferol	Cymru a mannau eraill yn y DU	£4,765
		Sefydliad preifat	Cymru a mannau eraill yn y DU	£3,175
	3	Darparwr arferol	Cymru a Lloegr	£1,905
			Yr Alban a Gogledd Iwerddon	£4,765
		Sefydliad preifat	Cymru a Lloegr	£1,270
			Yr Alban a Gogledd Iwerddon	£3,175
	4	Darparwr arferol	Cymru a Lloegr	£1,430
			Yr Alban a Gogledd Iwerddon	£4,765
		Sefydliad preifat	Cymru a Lloegr	£950
			Yr Alban a Gogledd Iwerddon	£3,175
	5	Darparwr arferol	Cymru a mannau eraill yn y DU	£6,070
	6	Darparwr arferol	Cymru, Lloegr a'r Alban	£1,430"

"Beginning on or after 1 September 2025	1	Ordinary provider	Wales	£9,535 for a full-time course £2,625 for a part-time course
			Elsewhere in UK	£9,535 for a full-time course £7,145 for a part-time course
		Private institution	Wales	£6,355 for a full-time course £2,625 for a part-time course
			Elsewhere in UK	£6,355 for a full-time course £4,765 for a part-time course
	2	Ordinary provider	Wales and elsewhere in UK	£4,765
		Private institution	Wales and elsewhere in UK	£3,175
	3	Ordinary provider	Wales and England	£1,905
			Scotland and Northern Ireland	£4,765
		Private institution	Wales and England	£1,270
			Scotland and Northern Ireland	£3,175
	4	Ordinary provider	Wales and England	£1,430
			Scotland and Northern Ireland	£4,765
		Private institution	Wales and England	£950
			Scotland and Northern Ireland	£3,175
	5	Ordinary provider	Wales and elsewhere in UK	£6,070
	6	Ordinary provider	Wales, England and Scotland	£1,430"

Vikki Howells

Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
19 Chwefror 2025

Minister for Further and Higher Education, under authority of the Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
19 February 2025

©ⓗHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39661-4

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/190